

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fawrth, 30/01/2018.

Minutes of meeting held Tuesday Evening, 30/01/2018.

Presennol / Present: Mrs Lynn Hervouet (Cadeirydd / *Chairperson*) **LH**, Mr Chris Davies (Is-gadeirydd) **CD**, Mr Arthur Thomas **AT**, Ms Sandra Thomas **ST**, Mr Cenwyn Williams **CW**, Mr Steven A. Jones (Clerc) **SAJ**. Marian Roberts **MR**.

Ymwelwyr Presennol / Present Visitors: Dim / *None*.

Ymddiheuriadau / Apologies: Cynghorydd Mr Eric Wyn Jones (CSYM) **EWJ**.

1. Croeso / Welcome

Diolchodd **LH** i **SAJ** am y gwaith yr oedd wedi'i wneud i'r Cyngor Cymuned yn ei rôl fel Clerc. Rhoddwyd croeso cynnes i'r Clerc newydd gan **LH** ac fe groesawyd pawb oedd yn bresennol.

LH thanked SAJ for the work that he had done to the Community Council in his role as Clerk. A warm welcome was given to the new Clerk by LH and all present were welcomed.

2. Datgan Diddordeb / Declaration of Interest

MEE datgan diddordeb yn eitem 8.6 / **MEE** declared an interest in item 8.6.

3. Cofnodion Cyfarfod Diwethaf / Minutes of last meeting

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir, Cynigwyd gan **ST**, Eiliwyd gan **CW**.

The minutes were confirmed correct, Proposed by ST, Seconded by CW.

4. Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes

4.0.1 Ffurflenni Cofrestr Buddiannau – Diweddarau, ffurflen gan **MEE**, **CD** a **CW** iw ddod.

Benefits Register Forms – Update, MEE, CD and CW outstanding.

4.0.2 Cae Chwarae - Adroddiad gan RoSPA / Asesiad Risg

Gofynnodd **MEE** os oes modd sganio adroddiad RoSPA er mwyn e-bostio ymlaen i G. L. Jones er mwyn cael archwiliad arall ar y ffrâm ddringo, polyn dyn tan a llawr arllwys. Dywedodd y Clerc y bysai yn sganio'r adroddiad a'i e-bostio i **MEE**.

Dywedodd **MEE** ei fod wedi cysylltu gyda 2 gontractwyr arall ond heb gael ymateb ganddynt. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â chyflwr yr offer sydd ar y cae chwarae ac oherwydd eu hoed ai cyflwr bydd angen ystyried eu newid yn ystod y flwyddyn yma. **MEE** i ofyn am gatalog offer chwarae a **ST** i holi pryd mae arian grant Shell ar gael.

Playing Field - RoSPA Report / Risk Assessment

MEE asked if it was possible to scan the report from RoSPA so that he is able to email the report to G. L. Jones to undertake another inspection on the climbing frame, fireman's pole and porous flooring. The Clerk agreed to scan an e-mail it forward **MEE**. **MEE** reported that he has consulted with two other contactors and still awaiting replies. A discussion took place regarding the condition of the current play equipment and due to their age and condition it was necessary to consider changing them this year. **MEE** to obtain play equipment catalogues and **ST** to enquire about when the Shell grant was available.

- 4.0.3 Ystâd Bryn y Gelli / Lon Uchaf - Lampau Goleuo Stryd Ddiffygiol
Ystâd Bryn y Gelli - lamp heb ei drwsio, **SAJ** wedi siarad gyda Chymdeithas Tai Clwyd Alun ynglŷn â'r mater. Penderfynwyd anfon e-bost arall yn gofyn iddyn nhw drwsio'r lamp cyn gynted â phosib. Lon Uchaf – lamp wedi ei thrwsio.

Bryn y Gelli Estate / Lon Uchaf – Faulty Street Lighting

*Bryn y Gelli Estate – lamp still not repaired, **SAJ** has already spoken with Cymdeithas Tai Clwyd Alun about this matter. It was decided to send another email requesting their assistance. Lon Uchaf – lamp has been repaired.*

- 4.0.4 Cae Pêl Droed Maes Chwarae - Rhwydi goliau
MEE wedi cael pris, ond isio pris arall. Ar ôl trafodaeth penderfynwyd fod **MEE** yn cael gwario i fyny at £100 am y rhwydi er mwyn cael eu gosod yn fuan.
Cynigwyd gan **ST**, Eiliwyd gan **AT**.

Play Ground Football Field – Goal Nets

***MEE** had received a price but was still awaiting another. After discussions it was agreed that **MEE** could spend up to £100 for the nets so that they can be installed as soon as possible.*

*Proposed by **ST**, Seconded by **AT**.*

5. Cyllid / Finance

5.1 Cadarnhau Taliad / Payment Confirmed

£60.00 – ail doriad llwybr cyhoeddus Rhif 1 / 2nd cut public footpath No. 1.

*£17.00 – Torch Pabi / Poppy Wreath (**AT**).*

£548.00 – Cyflog Clerc Medi – Rhagfyr / Clerks wage September – December.

£137.00 – TWE / PAYE (HMRC).

5.2 Biliau iw Dalu / Bills for Payment

£75.00 – Archwiliad Cyfrifon / Accounts Inspection 2016/17.

5.3 Taliadau wedi Derbyn / Payments Received

£2881.66 – Archebiant terfynol / final Precept.

*Cynigwyd gan / Proposed by **MEE**, Eiliwyd gan / Seconded by **AT**.*

6. Cynllunio / Planning

6.1 Ceisiadau / Applications

37C19J/TPO – Llanidan Boat House, Brynsiencyn, dim gwrthwynebiad / *no objections*.

6.2 Penderfyniadau / Decisions

37C40D – Groeslon Hotel, Brynsiencyn – CANIATÂD / *GRANTED*.

37C203 – White Hall, Brynsiencyn – CANIATÂD / *GRANTED*.

7. Gohebiaethau / Correspondence

(1) The Clerk Magazine – Ionawr / *January 2018*.

(2) Clerks and Council Direct – Ionawr / *January 2018*.

(3) Lwfansau Cynhorwyr / *Councillors Allowances 2018/19*.

(4) Rheoliad Diogelu Data / *Data Protection Regulation*.

(5) Ymgynghoriad CCA Wylfa Newydd / *Wylfa Newydd SPG Consultation*.

8. Unrhyw Fater Arall / Any Other Business

8.1 Apwyntiad Swydd Clerc / Clerk Job Appointment

MR wedi derbyn y swydd ar yr un telerau a **SAJ**. Penderfynwyd ail edrych ar y cyflog ym mis Mawrth. Derbyniwyd copi o'r contract i'r Clerc gan **LH**. **MR** i gysylltu yn ôl i **LH** unwaith iddi gael amser i edrych arno.

MR has accepted the job on the same terms as SAJ. It was agreed to revise the Clerks wages in March. A copy of the contract was given to the MR by LH. MR to contact LH once she has read it.

8.2 Urdd Gobaith Cymru / Theatr Bara Caws - cais am rodd / request for a donation

Cais yma yn cael ei roi ar y rhestr ceisiadau a'i drafod eto mis nesaf pan fydd holl ceisiadau am roddion yn cael ei hystyried.

This application is to be placed on the application list and discussed in next months meeting when all application for donation will be considered.

8.3 Ymddiswyddiad HEJ – llythyr diolch / Resignation HEJ – letter of thanks

MR i ysgrifennu i ddiolch i **HEJ** am ei waith i'r gymuned dros y 20 mlynedd diwethaf.

MR to write to thank HEJ for his work for the community over the last 20 years.

8.4 Aelodau Newydd – Enwebiad / New Members – Nominations

MR i ddechrau paratoi hysysiad er mwyn cael aelodau newydd. Hefyd gofyn **CD** os ydi'n bosib cael ffurlenni er mwy derbyn swydd cynhorwyr.

MR to start preparing a new advert for new members. MR to contact CD to enquire about obtaining more acceptance forms by new councillors.

8.5 Adroddiad Cyllid Chwarterol / *Quarterly Financial Report*

SAJ i baratoi a chyflwyno'r adroddiad i'r Cyngor cyn y cyfarfod nesaf. Hefyd bydd angen trafod y 'precept am y flwyddyn 2018/19 cyn y cyfarfod nesaf.

SAJ to prepare a financial report and circulate it to the Council members before next meeting. The Precept 2018/19 must be discussed and confirmed before next meeting.

8.6 Cae Chwarae – tender torri gwair a hel sbwriel / *Playing Field – tender to cut the grass and collect rubbish.*

Ar ôl trafodaeth penderfynwyd bod **MR** yn paratoi hysbysiad er mwyn cael pris am dorri gwair a hel sbwriel am 2018/19 - dyddiad cau 20.02.18. Bydd angen roi brawddeg yn yr hysbysiad yn dwyn sylw bod angen yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a bod rhaid rhoi copi o'r dystysgrif gyda'r pris. Bydd yr hysbyseb yn cael ei roi yn y lleoliadau canlynol: Y Ganolfan, Swyddfa Bost a'r Clwb Snwcer.

After discussions it was agreed that MR prepared an advert to obtain prices for cutting the grass and collect rubbish for 2018/19 – the closing date 20.02.18. It will be necessary to add the sentence that it is necessary to have public liability insurance and that a copy of the certificate must be enclosed with the price. The advert will be placed at the following locations, Y Ganolfan, Post Office and Snooker Club.

8.7 Torri gwrychoedd y cae chwarae ac ardal Brynsiencyn / *Cutting of hedges in the Playing Field and other areas in Brynsiencyn.*

MEE i gysylltu gydag O. G. Jones, Huw Owen a Des Griffiths er mwyn cael prisiau. **MEE** i gysylltu gyda **LE** gyda'r prisiau.

Cynigwyd gan **ST**, Eiliwyd gan **AT**.

MEE to contact O. G. Jones, Huw Owen and Des Griffiths to obtain prices. **MEE** to contact LE with the prices.

Proposed by **ST**, Seconded by **AT**.

8.8 Archwiliad Cyfrifon / *Auditing of Accounts*

Derbyniwyd e-bost gan Alun Foulkes yn cynnig gwasanaeth archwiliad cyfrifon gan Mr. John Roberts wedi ymdeol. Ar ôl trafodaeth penderfynwyd derbyn y cynnig yma am yr un telerau cafwyd gan Mr. Roberts.

An email was received from Alun Foulkes offering his service to audit the accounts now that Mr. John Roberts had retired. After discussions it was resolved to accept this offer for the same terms and conditions.

8.9 Rheoli Risg Llifogydd Brynsiencyn / *Controlling the Risk of Flooding in Brynsiencyn*

Derbyniwyd e-bost gan Eifion Glyn Davies ynglŷn â'r opsiynau sydd ar gael ynglŷn â rheoli risg llifogydd ym Mrysencyn. Opsiwn 1 - adeiladu wal fechan ar dop y wal sydd yn ymylu'r ffordd neu Opsiwn 2 - darparu, trwsio ac adnewyddu mesurau atal llifogydd yn yr eiddo i'r holl eiddo sydd o fewn ardal yr astudiaeth ac sydd mewn peryg o lifogydd. Yn yr e-bost oedd gwybodaeth am yr arddangosfa gyhoeddus sydd wedi cael ei drefnu ar y 14.03.18 rhwng 14.00hrs a 19.00hrs yn Halen Môn, Brynsiencyn. Penderfynwyd bod y mater yma yn cael ei drafod eto ar ôl yr arddangosfa gyhoeddus.

An email received from Eifion Glyn Davies regarding the options available for controlling the risk of flooding in Brynsiencyn. Option 1 – build a small wall on top of the existing wall or Option 2 – prepare, repair and renew the flood alleviation measures to all properties within the affected areas. The email also gave information of a public exhibition on the 14.03.18 between 14.00hrs and 19.00hrs at Halen Môn, Brynsiencyn. It was decided that this item would be discussed again after the public exhibition.

8.10 Carnifal Brynsiencyn 2018 / *Brynsiencyn Carnival 2018*

MEE yn dwyn sylw'r Cyngor bod Kirsty Campbell yn awyddus i drefnu carnifal / diwrnod o hwyl yn y pentref yn ystod yr haf. Ar ôl trafodaeth penderfynwyd bod y Cyngor yn cefnogi'r syniad yma mewn egwyddor a bod yr eitem yma yn cael ei drafod eto mis nesaf.

MEE brought it to the Council's attention that Kirsty Campbell was keen to organise a carnival / fun day in the village this summer. After discussions it was decided that the Council would support this idea in principle and that this item be discussed again next month.

8.11 Stad Tyn Bryn, Brynsiencyn / *Tyn Bryn Estate, Brynsiencyn*

Derbyniwyd llythyr gan drigolion Stad Tyn Bryn yn tynnu sylw'r Cyngor fod ceir yn cael ei parcio bob sut ar hyd y stad ac yn gofyn a oes modd cael llinellau melyn ar hyd y stad i rwystro parcio. Hefyd tynnwyd sylw'r Cyngor fod hoelion wedi cael ei roi ar hyd Lôn Uchaf a bod yr heddlu yn ymwybodol am hyn. Ar ôl trafodaeth, penderfynwyd rhoi gwadd i'r PSCO i'r cyfarfod nesaf er mwyn trafod y problemau ar hyd y lonydd yma a hefyd anfon llythyr i'r Adran Traffig o'r CSYM yn dwyn sylw at y broblem mae'r trigolion yn wynebu yn ddyddiol.

A letter received from residents of the Tyn Bryn Estate drawing the Council's attention that cars are parked along both sides of the road along the estate and asking if there was a way to arrange yellow lines to be painted along the estate. It was also brought to the Council's attention that nails had been put along the road and the police were aware of this problem. After discussion, it was decided to invite the PSCO to the next meeting to discuss the problems along these roads. A letter to be sent to the Traffic Department of the IACC highlighting the problem the residents are facing.

8.12 Pafin - Stryd Fawr Brynsiencyn o'r Capel at Cegin Ddu / *Pavement – Brynsiencyn High Street from the Chapel to Cegin Ddu*

Ar ôl trafodaeth, penderfynwyd anfon lythyr i'r Adran Priffyrdd yn tynnu sylw at y cyflwr gwael sydd ar y pafin.

After discussions, it was decided to write to the Highway's Department drawing attention to the condition of the pavements.

8.13 Gwaith adeiladu ar y cafi yn maes parcio dros fordd l'r Groeslon / *Builders work on the café in the parking area over the road from the Groeslon.*

Tynnwyd sylw nad oes dim ffens o amgylch y safle gwaith y caffi a bod y perchennog yn llosgi sbwriel gyda'r nos. Penderfynnwyd cysyllu gyda'r Arolygwr Gwaith Stydoedd, er mwyn tynnu sylw nad yw'r safely yma yn ddiogel.

It was brought to the Council's attention that there was no fence around the site and that the owner was burning rubbish at night. It was decided to contact the Street Works Inspector, YMCC, bringing his attention that the site was dangerous.

8.14 Baw Cwn / Bin - Dog Mess / Bin

Cafwyd drafodaeth fod nifer o bobl yn y pentref yn cerdded eu cwn o amgylch y pentref a dim yn pigo / clirio ar ôl i'r cwn baeddu, yn enwedig ar hyd Lôn Uchaf, Trefennai a Bryn Eithin. Hefyd fod y bin baw cwn sydd wedi ei leoli tu allan i fynedfa'r ysgol wedi torri. Penderfynwyd anfon e-bost i'r Adran Reoli Gwastraff, CSYM yn gofyn a gellir staff Kingdom dod i'r ardal yma yn fwy aml a hefyd iddyn nhw drwsio'r bin.

A discussion took place that a number of people in the village were walking their dogs and not picking up the dog mess especially along Lon Uchaf, Trefennai and Bryn Eithin. Also, the bin by the school's entrance was broken. It was decided to email the Waste Management Section, IACC asking if staff from Kingdom could patrol the area more often and ask if the bin could be repaired.

8.15 Ysgol Gynradd Brynsiencyn / Brynsiencyn Primary School

Derbyniwyd llythyr gan Mrs Nia Hall, Llywodraethwraig Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol ynglŷn â chais am grant o'r Gronfa Dreftadaeth y Loteri er mwyn dechrau prosiect newydd yn ymwneud a'r Rhyfel Byd Cyntaf. Ar ôl trafodaeth penderfynwyd bod y Cyngor yn cefnogi'r cais mew egwyddor a bod y mater yma yn cael ei drafod eto mis nesaf.

A letter was received from Mrs Nia Hall, Governor for Special Needs Education about an application the school had made from the Lottery Fund so that the school could start a new project on the First World War. It was decided that the Council would support the application in principal and that this matter would be discussed again in the next meeting.

9. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf / Date of Next Meeting

Nos Fawrth, 27/02/2018 am 7 o'r gloch yn 'Y Ganolfan'.

Tuesday Evening, 27/02/2018 at 7 o'clock at 'Y Ganolfan'.

Arwyddwyd – Cadeirydd / Signed – Chairperson

Dyddiad / Date: